Dŵr Cymru
Welsh Water

# Hysbysiad Preifatrwydd Dŵr Cymru

Sut rydyn ni'n defnyddio eich Gwybodaeth Bersonol



Awst 2023

R'yn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi i chi ein bod ni'n gofalu am eich Gwybodaeth Bersonol. Cael pobl i ymddiried ynom i wneud y peth iawn yw un o'n gwerthoedd craidd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yma'n esbonio sut rydyn ni'n casglu, yn defnyddio, yn rhannu ac yn amddiffyn eich Gwybodaeth Bersonol mewn ffordd sy'n parchu eich hawliau Diogelu Data ac yn cydymffurfio â chyfreithiau Diogelu Data'r DU (gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018).

## 1. Amdanom ni

Cwmni dŵr a charthffosiaeth nid-er-elw yw Dŵr Cymru. Mae'n darparu cyflenwadau dŵr yfed o safon gyson uchel ar gyfer dros dair miliwn o bobl ac yn cludo dŵr gwastraff i ffwrdd, gan ei drin a'i waredu mewn ffordd briodol yn ein hardal gyflenwi sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru, a rhannau o Lannau Dyfrdwy a Sir Henffordd. Enw masnachol Dŵr Cymru Cyfyngedig yw Dŵr Cymru. At ddibenion y cyfreithiau Diogelu Data, Dŵr Cymru Cyfyngedig yw'r Rheolydd Data (swyddfa gofrestredig Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT a rhif y cwmni 02366777).

## 2. Sut i gysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am ein Hysbysiad Preifatrwydd, neu os oes unrhyw sylwadau neu safbwyntiau gennych am yr hysbysiad neu ein dulliau o ymdrin â'ch Gwybodaeth Bersonol:

E-bostiwch ein Swyddog Diogelu Data yn: **DataProtectionOfficer@dwrcymru.com**; neu

Ysgrifennwch at ein Swyddog Diogelu Data yn: Swyddog Diogelu Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'ch hawliau fel Testun Data (gweler isod am ragor o fanylion):

E-bostiwch ni yn: **DataSubjectRightsRequests@dwrcymru.com**; neu

Ysgrifennwch atom yn: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Y Tîm Ceisiadau Hawliau Testun Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

Neu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ofyn am wybodaeth neu gyngor, neu i gyflwyno cwyn yn **ico.org.uk** neu ffonio 0303 123 1113.

## 3. Ein hawl gyfreithiol i brosesu eich Data Personol

Ni fyddwn ni'n prosesu eich Data Personol oni bai: fod gennym sail gyfreithiol i wneud hynny, bod prosesu'n angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur; ac yn gyson â'r ffordd rydym yn ei disgrifio yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

### Rhwymedigaeth gyfreithiol a hawliadau statudol

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith prosesu rydym yn ei gyflawni yn Dŵr Cymru mewn perthynas â'ch Data Personol yn hanfodol i gyflawni un o'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu'n hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth statudol (e.e. eich cyflenwi â dŵr glân; cael gwared ar ddŵr gwastraff; rheoli ein rhwydwaith; hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr; codi a chasglu ein taliadau; lleihau dyledion; a'n dyletswydd i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles ein gweithwyr).

### Buddiant Sylweddol y Cyhoedd

Rydyn ni'n dibynnu ar "Fuddiant Sylweddol y Cyhoedd" i brosesu unrhyw Ddata Personol neu Bersonol Sensitif rydych chi'n ei ddarparu ar ein cyfer (neu sy'n dod i'n meddiant fel arall amdanoch chi) at ddibenion addasu ein gwasanaethau at eich anghenion, Mae hyn yn cynnwys lle'r ydym yn defnyddio eich Data Personol neu Ddata Personol Sensitif i'ch amddiffyn rhag niwed neu i ddiogelu eich buddiannau (lle'r ydyn ni'n credu bod angen i ni wneud hynny, neu lle'r ydych chi'n dweud wrthym fod angen cymorth arnoch) trwy eich cofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR) fel y gallwn ddarparu'r cymorth sydd ei hangen arnoch ac fel y gallwn sicrhau eich bod chi'n cael cymorth blaenoriaeth os oes toriad yn eich cyflenwad neu argyfwng gweithredol arall.

Cofrestr yw'r PSR sy'n cynnwys manylion unigolion â gofynion penodol (e.e. oherwydd oedran, iechyd, anhwylder meddygol neu ofynion ychwanegol o ran cyfathrebu) lle bo'r gofynion hynny'n golygu hwyrach y bydd angen i ni gysylltu â'r unigolion trwy ddull penodol neu fel mater o flaenoriaeth os bydd toriad yn y cyflenwad neu argyfwng gweithredol arall. Mae cadw gwybodaeth ar y PSR yn golygu y gallwn ymateb yn gyflym ac addasu ein gwasanaethau i sicrhau eich bod chi'n cael y cymorth sydd ei angen arnoch. Er enghraifft, gallai fod angen i ni anfon tîm allan i'r cyfeiriad os nad yw rhywun yn gallu cyfathrebu dros y ffôn, neu gallai fod angen i ni anfon dŵr potel os oes anhwylder meddygol ganddynt.

Mae cynnwys eich Data Personol ar ein PSR yn golygu hefyd y gallem rannu eich Data Personol â sefydliadau yn eich ardal y mae eu rôl yn cynnwys eich cadw chi'n ddiogel neu ddiogelu eich buddiannau, fel darparwyr cyfleustodau eraill, y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd fel y gallant eich helpu chi mewn argyfwng hefyd.

I gael rhagor o fanylion am ein PSR, cliciwch **yma**. Os byddwn ni'n eich ychwanegu chi at y PSR am fod sefydliad arall wedi rhoi gwybod i ni am eich anghenion ychwanegol, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi.

Os nad ydych am dderbyn Gwasanaethau Blaenoriaeth trwy fod ar y PSR, gallwch roi gwybod i ni trwy un o'r dulliau isod:

Anfon neges e-bost atom yn: **DataSubjectRightsRequests@dwrcymru.com**;

Ysgrifennu atom yn: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Y Tîm Ceisiadau am Hawliau Testun Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT; neu

Cliciwch **yma** i fynd i'n ffurflen Cais Hawliau Testun Data neu gallwch ein ffonio ni i wneud cais.

Rydyn ni'n dibynnu hefyd ar "Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol" i brosesu unrhyw Ddata Personol neu Sensitif a ddarparwch ar ein cyfer (neu sy'n dod i'n meddiant amdanoch fel arall) at ddibenion cofrestru eich aelwyd ar gynllun tariffau is lle'r ydym ni'n gwybod eich bod chi'n fregus yn ariannol (e.e. yn derbyn budd-daliadau) am resymau iechyd.

## Buddiannau Dilys

Lle nad oes angen i ni brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu Fuddiannau Cyhoeddus Sylweddol (fel y'u disgrifir uchod), ar y cyfan rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i gynnal ein busnes yn effeithlon a gwella ein gwasanaethau (e.e. i'n cynorthwyo â'n gweithgarwch bilio a chasglu taliadau; ein galluogi i ddarparu biliau fforddiadwy ar gyfer ein cwsmeriaid; cyflawni arolygon o foddhad cwsmeriaid neu waith ymchwil i'r farchnad; rhoi gwybod i chi am ymgyrchoedd fel "Stop Cyn Creu Bloc" a dulliau o fynd ati i wella effeithlonrwydd dŵr).

Rydyn ni'n dibynnu ar fuddiannau dilys hefyd i brosesu Data Personol am gwsmeriaid (neu aelodau o'u haelwyd) o dan amodau ariannol bregus i ddiogelu buddiannau'r unigolion hyn trwy gofrestru eu haelwyd ar gynllun tariffau is.

Rydyn ni'n gwirio bob tro nad yw eich hawliau'n drech na'n buddiannau dilys, a'n bod yn prosesu eich Data Personol mewn ffordd rydym ni'n meddwl y byddech chi'n ei disgwyl yn rhesymol (h.y. fel a bennir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd yma).

## Cydsyniad

O dan amodau cyfyngedig, mae angen eich cydsyniad arnom i brosesu eich Data Personol – er enghraifft lle byddwch yn darparu Data Personol Sensitif ar ein cyfer, fel gwybodaeth feddygol neu iechyd mewn trafodaethau â ni am ein Tariffau Cymdeithasol (e.e. gwybodaeth am fudd-daliadau anabledd/salwch). Pan fyddwn ni'n casglu eich Data Personol Sensitif at y dibenion hyn, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cael eich caniatâd penodol i'w gasglu a'i gofnodi (a'i rannu ag eraill os yw hynny'n berthnasol), ac yn rhoi gwybod i chi sut y gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl os byddwch chi'n newid eich meddwl (gweler paragraff 11 am fanylion pellach am eich hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl).

I gael rhagor o wybodaeth am ein Tariffau Cymdeithasol, cliciwch **yma**.

## Rhannu data o dan Ddeddf yr Economi Digidol 2017

Rydyn ni'n dibynnu ar Ddeddf yr Economi Digidol 2017 i dderbyn data personol cwsmeriaid o awdurdodau lleol sy'n debygol o fod mewn tlodi dŵr fel y gallwn eich ychwanegu at ein tariffau cymdeithasol yn awtomataidd (a darparu mynediad at unrhyw un o'n cynlluniau cymorth ariannol eraill).

# 4. Pa Ddata Personol byddwn ni'n ei gasglu amdanoch ac i beth y byddwn ni'n ei ddefnyddio

Byddwn ni'n casglu gwahanol fathau o Ddata Personol amdanoch yn dibynnu sut rydych chi'n dewis cysylltu â ni, a'n perthynas â chi.

Gallwn gasglu Data Personol gennych trwy'r dulliau canlynol:

- naill ai wrth greu (neu ddiwygio) eich cyfrif gyda ni;
- pan fyddwch chi'n cysylltu â ni i roi gwybod fod dŵr yn gollwng, fod tagfa mewn pibell, problem gydag ansawdd eich dŵr neu broblem arall gyda'ch cyflenwad neu i dalu bil, a allai gynnwys ni'n dod allan i'ch eiddo neu'n rhoi galwad fideo i chi i ymchwilio i broblem);
- pan fyddwch chi'n cysylltu â ni trwy lythyr, dros y ffôn, trwy e-bost neu trwy sgwrs fyw;
- pan fyddwch chi'n cysylltu â ni trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Am ragor o wybodaeth am ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd am y Cyfryngau Cymdeithasol sydd ar gael **yma**:
- wrth wneud cais am dariff cymdeithasol neu i gael eich cynnwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth;
- pan fyddwch chi'n cysylltu â'n Tîm Gwasanaethau Datblygu am adeiladu datblygiad newydd, disodli cyflenwad dŵr sy'n bodoli eisoes, caffael prif bibell ddŵr neu wneud cais i osod prif bibell ddŵr a gwasanaethau eich hun;
- pan ddewch chi i'n swyddfeydd, ein canolfannau ymwelwyr neu'n canolfannau addysg fel ymwelydd. Dylid nodi fod gennym CCTV yn ein swyddfeydd, ein canolfannau ymwelwyr a'n canolfannau addysg, felly gallech gael eich recordio wrth ymweld â ni. Mae yna arwyddion pwrpasol i'ch hysbysu pan rydych chi'n dod i ardal sydd dan oruchwyliaeth CCTV. Cedwir delweddau CCTV am 30 diwrnod cyn eu dileu (oni bai bod yna reswm busnes ddilys dros eu cadw am gyfnod hwy). I gael rhagor o wybodaeth am ein defnydd o CCTV, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Dŵr Cymru;
- pan fyddwch chi'n cwyno i ni;
- pan fyddwch chi'n ymweld â neu'n cyrchu ein gwefan. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler ein **hysbysiad cyfreithiol**;
- weithiau rydyn ni'n defnyddio systemau awyr heb griw (dronau) i fonitro, cynnal a/neu wella ein tiroedd, ein hasedau a'n prosesau. Peilotiaid ag awdurdod y CAA sydd naill ai yng nghyflogaeth Dŵr Cymru neu gontractwyr trydydd parti fydd yn hedfan y dronau. Ein nod yw osgoi hedfan dronau'n union dros ben neu o fewn 50 metr i bobl, cerbydau, cychod neu eiddo. Byddwn ni'n cyfyngu cymaint ag y bo'n rhesymol ymarferol ar faint o Ddata Personol a gesglir wrth ddefnyddio dronau trwy gasglu recordiadau/delweddau ar sail anghenraid yn unig (trwy beidio â dechrau recordio nes bod y drôn yn ei le ac nid wrth esgyn a glanio oni bai bo angen), a'u cadw am gyhyd ag y bo angen yn unig, a thrwy hysbysu unigolion bod gwaith recordio'n digwydd ar ffurf hysbysiad.

Mae'r Data Personol y gallwn ei gasglu gennych yn cynnwys:

- Enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn eich llinell dir, a'ch rhif ffôn poced;
- Eich dyddiad geni i'n helpu i wahaniaethu wrth bobl eraill. Dyddiad geni yw un o'r pethau mwyaf unigryw i glustnodi unigolyn ac mae gofyn i chi ddarparu eich dyddiad geni yn ein galluogi i'w ddefnyddio i ddilysu pwy ydych chi. Mae hyn yn ein helpu ni i sicrhau taw dim ond ein cwsmeriaid sy'n gallu cyrchu eu cyfrifon ac mae'n ein helpu ni i amddiffyn eich Data Personol;
- Rhif yswiriant gwladol os oes angen y wybodaeth yma arnom i'w throsglwyddo i'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- Manylion eich cyfrif banc os ydych chi'n talu trwy ddebyd uniongyrchol;
- Manylion eich cerdyn debyd a/neu gredyd os ydych am dalu eich bil â cherdyn;
- Gwybodaeth am eich incwm a'ch gwariant a manylion fforddiadwyedd arall (gan gynnwys manylion budd-daliadau) os ydych chi'n gwneud cais am un o'n tariffau cymdeithasol;
- Gwybodaeth feddygol neu iechyd fel y gallwn addasu ein gwasanaethau at eich anghenion (e.e. os byddwch chi'n gofyn i gael eich cynnwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth);
- Enw a chyfeiriad a manylion cyswllt y landlord;
- Manylion cyd-ddeiliaid a/neu aelodau o'ch teulu (gan gynnwys plant);
- Manylion enwebeion os ydych wedi enwebu trydydd parti i siarad â ni am eich cyfrif;
- Rhif cyfresol eich mesurydd a gwybodaeth am eich defnydd;
- Recordiadau fideo neu ddelweddau o broblem rydym yn ymchwilio iddi yn eich eiddo;
- Hanes gwasanaethau (e.e. llifogydd carthion, pwysau isel);
- Nodweddion ffisegol fel eich golwg a'ch osgo, a rhifau cofrestru cerbydau a gesglir trwy CCTV a dronau. Caiff unrhyw Ddata Personol a gesglir ei anonymeiddio wrth brosesu'r data.
- Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'n prosesau adfer dyledion (e.e. eich cofnod talu).
- Rydyn ni'n defnyddio'r Data Personol rydym yn ei gasglu amdanoch at y dibenion canlynol;

**Cysylltu â chi am eich cyflenwad dŵr a/neu ein gwasanaethau**
I roi gwybod i chi os oes problem weithredol yn eich ardal, os oes problem gyda'ch cyflenwad neu gydag ansawdd eich dŵr; i roi gwybod i chi am gynlluniau buddsoddi cyfalaf neu waith arall yn eich ardal; i roi gwybod i chi am ymgyrchoedd effeithlonrwydd dŵr neu stop cyn creu bloc.

- Rydyn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth, a'n buddiannau dilys i wneud hynny.
- Gallwn ddibynnu'n achlysurol ar Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol i wneud hynny hefyd os ydych chi ar ein PSR (fel y'i disgrifir isod yn fwy manwl).

**Gweinyddu cyfrifon**
I weinyddu eich cyfrif, casglu taliadau, adfer symiau sy'n ddyledus i ni a bwydo ein prosesau adfer dyledion. Gallai hynny gynnwys ymgynghori â'ch cofnodion trwy asiantaethau gwirio credyd (gweler isod am ragor o wybodaeth) mewn perthynas â chyfrifon newydd, cyfrifon a dalwyd ac unrhyw ddyledion na ad-dalwyd yn llawn ac yn brydlon.

- Rydyn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth a'n buddiannau dilys i wneud hynny.

**Eich tariff**
Fel y gallwn godi tariff sy'n briodol at eich amgylchiadau. Byddwn ni'n adolygu eich tariff yn gyson – yn flynyddol fel rheol – gan ddefnyddio'r wybodaeth bilio o'ch cyfrif gyda ni (yn ogystal â gwybodaeth a geir gan CThEF neu landlordiaid cymdeithasol). Os ydych chi'n gymwys i symud i gynllun tariff is (fel HelpU neu WaterSure Cymru) gallwn osod eich cyfrif ar dariff is, a byddwn ni'n rhoi gwybod i chi ein bod wedi gwneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf cymhwyster am ein cynlluniau tariff is, a beth sy'n digwydd pan fo amgylchiadau eich aelwyd yn newid, ewch i **dwrcymru.com**. Os nad ydych am gael eich ystyried ar gyfer cynllun tariff is, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod neu trwy ffonio **0800 052 0145**.

- Rydyn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth, a'n buddiannau dilys i wneud hynny.
- Rydyn ni'n dibynnu ar Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol lle rhoddi tariff is ar eich cyfrif am eich bod chi'n fregus yn ariannol (e.e. yn derbyn budd-daliadau) am resymau iechyd.

**Gweinyddu ein Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid**
I weinyddu unrhyw gais a wnewch o dan ein Cronfa Gymorth i Gwsmeriaid (cewch ragor o wybodaeth am beth mae hyn yn ei olygu wrth wneud cais); a chasglu taliadau'n uniongyrchol trwy unrhyw fudd-daliadau lles cymwys lle bo hynny'n berthnasol.

- Rydyn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth i wneud hynny.

**Addasu sut rydym yn darparu ein gwasanaethau at eich anghenion (e.e. trwy addasu'r ffordd rydym yn ymdrin â'ch cyfrif neu'n eich adio at y PSR)**
Os oes gennych ofynion penodol (e.e. oherwydd oedran, iechyd, anhwylder meddygol neu ofynion cyfathrebu ychwanegol) sy'n golygu bod angen i ni addasu ein gwasanaethau at eich anghenion neu gysylltu â chi mewn ffordd benodol neu fel mater o flaenoriaeth os bydd problem gyda'ch cyflenwad neu argyfwng gweithredol arall.

- Rydyn ni'n dibynnu ar Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol i wneud hyn.

**Gwella ein gwasanaethau**
Wrth ymdrechu'n barhaus i wella ein dulliau o weithio:

- At ddibenion hyfforddi neu brofi systemau.
- I gynhyrchu ystadegau, dadansoddeg a dadansoddiadau er mwyn gwella ein gwasanaethau a'n harlwy, at ddibenion rheoli ac adrodd mewnol ac at ddibenion rheoliadol.
- I edrych ar eich perthynas â ni ac i gysylltu â chi i'ch gwahodd i gymryd rhan yn ein harolygon cwsmeriaid (a all gael eu cyflawni ar ein rhan gan drydydd parti).
- Rydyn ni'n dibynnu ar ein hawliau statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth, a'n buddiannau dilys i wneud hynny.

**Gofynion rheoliadol**
I gydymffurfio â rhwymedigaethau, safonau'r diwydiant, codau ymarfer a chanllawiau mewn perthynas â'n statws rheoledig ac â'n gofynion cyfreithiol cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys os (er enghraifft) cewch ddamwain ar ein heiddo a bod gofyn i ni gofnodi hynny yn unol â'r cyfreithiau iechyd a diogelwch.

— Rydyn ni'n dibynnu ar ein gofynion statudol a/neu reoliadol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth i wneud hynny.

**Cynhyrchion a gwasanaethau effeithlonrwydd dŵr**
Ein cyfrifoldeb a'n dyletswydd gyfreithiol ni yw hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr. Gallwn hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau mewn perthynas ag effeithlonrwydd dŵr. Gallwn ymgysylltu trydydd parti i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar ein rhan.

— Ar adegau, byddwn yn hyrwyddo Water Aid hefyd, sef elusen a sefydlwyd gan y Diwydiant Dŵr i hyrwyddo dŵr yfed glân i bawb, neu elusennau perthnasol eraill.

— Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i gyflawni'r gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, os ydych am ymarfer eich hawl i wrthod cysylltiad o'r fath gennym, rhowch wybod i ni.

## 5. Eich Data Personol a gasglwn gan eraill ac at ba ddiben yr ydym yn ei ddefnyddio

Gallwn gasglu Data Personol amdanoch gan eraill fel a ganlyn:

— Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau ar eich cyfer, ac os yw'n briodol, cymhwyso tariff cymdeithasol yn awtomataidd;

— Adrannau'r llywodraeth – i'ch cynorthwyo gyda'ch ceisiadau am dariffau cymdeithasol;

— Awdurdodau lleol – fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau ar eich cyfer, ac os yw'n briodol, cymhwyso tariff cymdeithasol yn awtomataidd;

— Os ydych chi'n denant, galwn gasglu eich data gan eich landlord neu trwy Landlord Tap Limited, lle maent wedi eich hysbysu eu bod yn rhannu'r wybodaeth, at ddibenion yr holl ofynion bilio gan gynnwys casglu dyledion; olrhain a gorfodi (lle bo hynny'n briodol);

— Cyfleustodau neu sefydliadau eraill yn eich ardal fel ysbytai, y gwasanaeth tân, yn rhan o'n gwasanaethau PSR:

— Os ydych chi'n landlord, gallwn ofyn i chi am eich data neu ei gasglu gan Landlord Tap Limited at y dibenion hyn;

— Asiantaethau gwirio credyd, asiantau casglu ac olrhain dyledion – i ddilysu eich hunaniaeth, dilysu cywirdeb y wybodaeth rydych wedi ei darparu ar ein cyfer, rheoli eich cyfrif, gwella ein prosesau casglu dyledion, bwydo'r penderfyniadau a wnawn mewn perthynas â'n gweithgareddau bilio a chasglu arian, ein helpu ni i olrhain dyledion, casglu arian sy'n ddyledus i ni ac atal gweithgarwch troseddol, twyll a gwyngalchu arian. Gweler yr adran "Asiantaethau Gwirio Credyd" isod a'n **Hysbysiad Preifatrwydd Rhannu Data CRA sydd ar gael ar ein gwefan** am ragor o fanylion. Mae rhagor o fanylion ar y CRAs a sut y maent yn defnyddio ac yn rhannu Gwybodaeth Bersonol yn yr Hysbysiad Gwybodaeth am Asiantaethau Gwirio Credyd ("CRAIN") (sydd ar gael trwy ddilyn y linc: www.experian.co.uk/crain).

## 6. Gwybodaeth amdanoch chi rydym yn ei rhannu ag eraill a pham

Gallwn rannu eich manylion â thrydydd partïon fel a ganlyn:

— Gydag unrhyw gwmnïau sy'n perthyn i grŵp Dŵr Cymru i'w defnyddio yn yr un modd â ni, ac i gael darlun cyffredinol o'ch perthynas â'r grŵp. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny;

— Gyda Landlord Tap Limited, os ydych chi'n denant (ac mae eich landlord wedi eich hysbys) neu'n landlord, at ddibenion yr holl ofynion bilio gan gynnwys casglu dyledion, olrhain a gorfodi (lle bo hynny'n briodol). Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny;

— Lle bo'n briodol, gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith gan gynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol, er mwyn helpu i atal, datgelu ac erlyn troseddau, neu lle'r ydyn ni'n ystyried ei bod yn briodol i wneud hynny er mwyn amddiffyn ein busnes, cyflogeion a chwsmeriaid. Fe wnawn ni hynny yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;

— Adrannau'r Llywodraeth – lle'r ydyn ni'n credu y gallai budd-daliadau cymdeithasol fod yn berthnasol, gallwn wneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau i dalu eich taliadau'n uniongyrchol o'ch budd-daliadau. Byddwn ni'n rhannu manylion eich enw, eich dyddiad geni a'ch gwybodaeth bilio i bwyso a mesur eich cymhwyster ac i weinyddu taliadau uniongyrchol i ni. Byddant yn eich hysbysu chi os bwriedir gwneud taliad uniongyrchol neu os oes unrhyw newidiadau o ran cymhwyster. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny;

— Awdurdodau lleol – er mwyn helpu i reoli eich cyfrifon/ trefniadau bilio. Rydyn ni'n gwneud hynny naill ai mewn perthynas â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny;

— Rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill lle bo'n briodol i ymarfer eu swyddogaethau neu'n rhai ni, neu lle bo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny. Mae rhwymedigaeth arnom hefyd i rannu eich Data Personol mewn perthynas â digwyddiad ansawdd dŵr gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Fe wnawn ni hynny yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;

— Darparwyr cyfleustodau eraill (fel cwmnïau ynni) neu sefydliadau yn eich ardal fel ysbytai neu'r gwasanaeth tân yn rhan o'n gwasanaethau PSR lle'r ydyn ni'n credu bod yna Fuddiant Cyhoeddus Sylweddol neu Fuddiant Dilys i wneud hynny;

— Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill sy'n bilio ar ein rhan neu yr ydym yn bilio ar eu rhan;

— Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill (gan gynnwys Penodiadau Newydd ac Amrywiadau) sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer eich eiddo, at ddibenion sicrhau bod y wybodaeth gywir ganddynt (fel manylion mesuryddion gan gynnwys darlleniadau, newid ym manylion yr eiddo, gwybodaeth am ddeiliadaeth) er mwyn galluogi iddynt gyhoeddi biliau cywir ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu;

— Asiantaethau credyd, asiantau casglu ac olrhain dyledion – i ddilysu eich hunaniaeth, dilysu cywirdeb y wybodaeth rydych wedi ei darparu ar ein cyfer, rheoli eich cyfrif, ein helpu ni i olrhain dyledion, casglu arian sy'n ddyledus i ni ac atal gweithgarwch troseddol, twyll a gwyngalchu arian. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hyn. Gweler yr adran "Asiantaethau Gwirio Credyd" isod i gael rhagor o wybodaeth, ein Hysbysiad Preifatrwydd Rhannu Data CRA sydd ar gael ar ein gwefan a chliciwch **yma** i gael rhagor o fanylion am y CRAs a sut y maent yn defnyddio ac yn rhannu Gwybodaeth Bersonol yn y CRAIN;

– Ein partneriaid eraill sy'n darparu gwasanaethau ar ein cyfer (fel a drafodir yn fanylach yn yr adran "Partneriaid rydym yn Ymddiried Ynddynt" isod). Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny.

## Asiantaethau Gwirio Credyd

Pan fyddwch chi'n agor cyfrif gyda ni, a thrwy gydol y cyfnod y mae eich cyfrif yn agored gyda ni, a phan fyddwn ni'n cau eich cyfrif, gallwn wirio eich cofnodion gyda'r CRAs i wirio pwy ydych chi, dilysu cywirdeb y wybodaeth rydych wedi ei darparu, ac atal a datgelu troseddau, cymryd camau olrhain ac adfer, a thwyll a gwyngalchu arian. Mae'r gwiriadau hyn yn ein galluogi i gael syniad o ymddygiad ariannol ein cwsmeriaid er mwyn clustnodi cwsmeriaid sydd mewn perygl o fynd i ddyled fel y gallwn dargedu cymorth perthnasol (e.e. tariffau cymdeithasol) ar eu cyfer.

Pan fo CRAs yn cael chwiliad gennym ni, byddan nhw'n gosod ôl troed chwiliad ar eich ffeil credyd y gall benthycwyr eraill ei weld. Mae'r CRAs yn darparu gwybodaeth gyhoeddus (gan gynnwys manylion o'r gofrestr etholiadol) a gwybodaeth credyd ac atal twyll sy'n cael ei rannu o fewn grŵp caeedig o CRAs. Rydyn ni'n gwirio eich cofnodion ag Asiantaethau Atal Twyll (FPAs) hefyd.

Yn ogystal, rydyn ni'n cyflawni gwiriadau i'n cynorthwyo i asesu amlder a thelerau talu. Gallwn gyflawni dilysiadau cyfnodol gyda CRAs a FPAs hefyd er mwyn rheoli eich cyfrif â ni (e.e. i ddilysu manylion deiliaid).

Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am bob cyfrif a dalwyd fel y gallwn ni a'n cwsmeriaid elwa ar y cymhwyster i fanteisio ar ffynonellau data, ac mae hyn yn cyfrannu hefyd at ecosystem ariannol gynaliadwy, gan helpu i atal twyll, gorddyled a hyrwyddo benthyca cyfrifol. Mae rhannu cofnodion talu cadarnhaol gyda CRAs yn fuddiol i statws credyd cwsmeriaid (am ei bod yn dangos eu bod yn talu ein biliau'n llawn ac yn brydlon), a gallai wella mynediad at gyfleusterau credyd rhatach.

Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth am gyfrifon sydd mewn dyled er mwyn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau tecach am gasglu dyledion ac fel arf ataliol rhag peidio â thalu dyledion.

Os oes gennych ddyled ariannol i ni ac nad ydych yn ei had-dalu'n llwyr ac yn brydlon ar gais, bydd y CRAs yn cofnodi'r ddyled sy'n weddill. Os ydyn ni'n ystyried bod diffyg ar eich cyfrif, byddwn ni'n eich hysbysu am hynny ac os na fyddwch chi'n ein talu ni, byddwn ni'n hysbysu'r CRAs am y ddyled. Gall y CRAs a'r FPAs rannu'r wybodaeth yma â sefydliadau eraill er mwyn galluogi iddynt gyflawni dilysiadau tebyg ac er mwyn canfod ymhle ydych chi os ydych chi wedi symud heb roi'r cyfeiriad rydych chi'n symud iddo fel y gallwn adfer eich dyledion. Cedwir y cofnodion ar ffeil am 7 blynedd ar ôl eu cau dim ots beth yw'ch ymddygiad talu.

Os ydych wedi bod yn ddiffygdalwr i ni mewn cyfeiriad blaenorol ac nad yw'r ddyled wedi cael ei chlirio, byddwn ni'n dileu'r diffygdaliad os cyfunir y ddyled o dan eich cyfeiriad newydd. Gallwn eich diffygdalu ar y ddyled gyfunol os na fyddwch chi'n ei ad-dalu'n llawn ac yn brydlon ar gais.

Os byddwch chi'n rhoi gwybodaeth ffug neu anghywir i ni a'n bod yn amau neu'n sylwi ar dwyll, byddwn ni'n cofnodi hyn a gallwn drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r FPAs a sefydliadau eraill sy'n helpu i atal troseddau a thwyll.

Os byddwch chi'n symud ac nad ydych yn talu'r taliadau sy'n ddyledus i ni, byddwn ni'n olrhain ble ydych chi er mwyn adfer y dyledion.

Os dywedwch wrthym fod gennych briod neu bartner ariannol, byddwn ni'n cysylltu eich cofnodion felly rhaid i chi fod yn sicr fod gennych eu cydsyniad i ddatgelu gwybodaeth amdanynt. Mae CRAs yn cysylltu eich cofnodion hefyd a bydd y cysylltiadau hyn yn aros ar ffeiliau'r ddau ohonoch nes eich bod chi neu eich partner yn ffeilio'n llwyddiannus i ddatgysylltu wrth eich gilydd gyda'r CRAs er mwyn torri'r cysylltiad hwnnw.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn ni'n rhannu eich data personol â'r CRAs, gweler ein hysbysiad Preifatrwydd ar Rannu Data CRA sydd ar ein gwefan.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth â'r CRAs canlynol:

**TransUnion**
www.transunion.co.uk/consumer/consumer-enquiries

**Experian**
www.ins.experian.co.uk/contact

**Equifax**
www.equifax.co.uk/Contact-us/Contact_Us_Personal_Solutions

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gredyd a CRAs yng nghanllaw'r Comisiynydd Gwybodaeth; 'Credit Explained': www.ico.org.uk/your-data-matters/credit

Gallwch gael rhagor o fanylion am y CRAs a sut y maen nhw'n defnyddio ac yn rhannu Data Personol yn yr Hysbysiad Gwybodaeth am Asiantaethau Gwirio Credyd (CRAIN) trwy glicio **yma**.

## Arolygon Ofwat

Gall unrhyw gwsmeriaid sy'n cysylltu â ni gael eu gwybodaeth gyswllt ei throsglwyddo i brosesydd trydydd parti sy'n gweithredu ar ran ein rheoleiddiwr dŵr, Ofwat, at ddibenion arolygon y Mesuriad o Brofiadau Cwsmeriaid ("C-Mex"), y Mesuriad o Brofiadau Cwsmeriaid Busnes ("B-Mex") neu'r Mesuriad o Brofiadau'r Gwasanaethau Datblygu ("D-Mex"). Mae hyn yn helpu i reoleiddio gwasanaethau cwsmeriaid yn y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr. Gall y trydydd parti hwn gysylltu â chi am y gwasanaeth rydych chi wedi ei dderbyn gan Ddŵr Cymru a gofyn i sgorio ein perfformiad. Nid galwad marchnata mo hwn. Rydyn ni'n rhannu eich Data Personol ag Ofwat yn rhan o'n gofynion statudol fel ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth. Pe byddai'n well gennych nad ydym yn rhannu eich manylion ag Ofwat (a thrydydd partïon sy'n gweithredu ar eu rhan) rhowch wybod i ni trwy anfon neges e-bost atom yn: **DataProtectionOfficer@dwrcymru.com** neu trwy ysgrifennu atom yn: Swyddog Diogelu Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

## Arolygon Eraill

Gallwn ddefnyddio trydydd parti, neu ein gweithwyr ni ein hunain, i helpu i gysylltu â'n cwsmeriaid i gyflawni arolygon o foddhad cwsmeriaid neu brosesau ymgysylltu. Nid galwadau marchnata yw'r rhain ac mae eich ymateb yn bwysig iawn i ni. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny. Os byddai'n well gennych beidio â chymryd rhan, dywedwch wrthym, naill ai trwy anfon e-bost atom yn: **DataProtectionOfficer@dwrcymru.com** neu trwy ysgrifennu atom yn: Swyddog Diogelu Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT.

Dylid nodi na fydd hyn yn atal cysylltiadau at ddibenion darparu ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff na gan ein rheoleiddiwr. Rhaid i ni rannu eich gwybodaeth gyswllt â thrydydd partïon sy'n gweithio ar ran ein rheoleiddiwr dŵr Ofwat o hyd at ddibenion C-Mex. B-Mex neu D-Mex (fel a amlinellir uchod).

### Y Partneriaid rydym yn Ymddiried ynddynt

Rydyn ni'n defnyddio nifer o bartneriaid rydym yn ymddiried ynddynt i'n cynorthwyo i gyflawni ein gweithgareddau neu i'w cyflawni ar ein rhan, a/neu i wella ein gwasanaethau ar eich cyfer. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny. Rydyn ni'n gorfodi rheolaethau priodol o dan yr amgylchiadau hyn (gan gynnwys contract rhwymol sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyrchu ac ymdrin â'ch Data Personol i beth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r contract).

Rydyn ni'n defnyddio darparwyr meddalwedd ar gyfer gwahanol systemau, fel ein system bilio, ein system archebu gwaith a'n system darllen mesuryddion, i'n cynorthwyo gyda'r data helaeth y mae angen i ni ei reoli. Rydyn ni'n defnyddio cwmnïau i'n cynorthwyo i argraffu biliau a chyfathrebu â chwsmeriaid ac i'n helpu ni i brosesu taliadau gan gynnwys taliadau â cherdyn, cardiau talu a phrosesu sieciau. Rydyn ni'n defnyddio contractwyr i adnewyddu prif bibellau a thrwsio pibellau hefyd, a gallant gyrchu rhywfaint o'ch Data Personol sy'n berthnasol i'w gwaith.

### Cwyno

Os byddwch chi'n cwyno i ni, byddwn ni'n dilyn ein Gweithdrefn Gwyno sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen hon **https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/library/leaflets-and-publications/how-we-handle-your-complaints-and-compliments**. Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu manylion eich cwyn yn fewnol er mwyn ymchwilio'n drylwyr iddi. Os byddwch chi'n cyfeirio eich cwyn at Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CC Water), byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth â nhw er mwyn datrys eich cwyn. Byddwn ni'n defnyddio'r Data Personol a gasglwn dim ond er mwyn prosesu'r cwyn yn unol â'n proses ar gyfer cwynion. Rydyn ni'n dibynnu ar ein buddiannau dilys i wneud hynny.

### Dŵr Agored

Os ydych chi'n gwsmer busnes, sy'n defnyddio mwy na 50 Ml o ddŵr ar un safle'r flwyddyn yn ei hardal benodol, byddwn ni'n rhannu gwybodaeth amdanoch chi â Market Operator Services Limited ("MOSL") sy'n hwyluso'r Rhaglen Dŵr Agored. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae MOSL yn defnyddio eich gwybodaeth yn https://mosl.co.uk/privacy-policies.

## 7. Ymhle y byddwn ni'n storio eich Data Personol a sut rydym yn ei gadw'n ddiogel

Cedwir holl Ddata Personol cwsmeriaid yn ein system filio yn y DU, sydd â mynediad rheoledig, ac sy'n destun mesurau seiberddiogelwch cadarn. Mae unrhyw fynediad i'n systemau dan reolaeth dynn. Rydyn ni'n gweithredu diogelwch ffisegol tynn ar ein holl safleoedd hefyd, ac mae'r holl staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth am ddiogelwch a Diogelu Data.

Pan fyddwn ni'n trosglwyddo Data Personol i drydydd barti i'w galluogi i'w brosesu ar ein rhan (gweler y wybodaeth am Bartneriaid rydym yn Ymddiried Ynddynt uchod), rydyn ni'n sicrhau bod y darparwyr yn bodloni neu'n rhagori ar y gofynion cyfreithiol neu reoliadol ar gyfer trosglwyddo data iddynt a'i gadw'n ddiogel.

Mae hi'n bosibl y bydd angen i ni drosglwyddo eich Data Personol y tu hwnt i Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Mae'n bosibl na fydd gan y gwledydd hyn yr un cyfreithiau Diogelu Data â'r DU ac AEE ac na fydd eich Data Personol yn cael yr un amddiffyniad felly. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw Ddata Personol sy'n cael ei drosglwyddo i wledydd y tu hwnt i AEE yn cael yr un amddiffyniad priodol â phe bai'n cael ei brosesu yn AEE ac o dan yr egwyddorion arweiniol a bennir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd yma.

## 8. Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich Data Personol

Byddwn ni'n cadw biliau a gohebiaeth cwsmeriaid am 7 blynedd ar ôl cau'r cyfrif. Byddwn ni'n cadw recordiadau o alwadau am 12 mis.

## 9. Penderfyniadau a phroffilio awtomatig

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cyflawni unrhyw benderfyniadau'n awtomatig yn ôl diffiniad y cyfreithiau Diogelu Data.

Rydyn ni'n defnyddio proffilio yng nghyd-destun y gwasanaethau a ddarparwn a dadansoddiadau cwsmeriaid. Mae'r gwaith prosesu yma'n darparu'r sylfaen ar gyfer dadansoddi data, gwaith ymchwil ystadegol, a dadansoddi tueddiadau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarparwn, datblygiadau o ran y busnes a systemau, darogan a chyfraniadau eraill i ddatblygu a gwella ein gweithgareddau busnes.

## 10. Cwcis

Gweler ein Polisi Cwcis ar ei gwefan am wybodaeth am ein defnydd o gwcis.

## 11. Eich Hawliau Diogelu Data

Mae gennych rai hawliau penodol mewn perthynas â'ch Data Personol a gallwch wneud gwahanol fathau o Geisiadau Hawliau Testun Data mewn perthynas â'r Data Personol sydd gennym amdanoch chi. Hwyrach na fydd yr holl hawliau hyn yn berthnasol o dan yr holl amgylchiadau, ond byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n delio ag unrhyw gais sy'n dod i law mewn ffordd sy'n amddiffyn eich hawliau a'ch rhyddid, ac sy'n cydymffurfio â'r cyfreithiau Diogelu Data.

Os hoffech wneud Cais Hawliau Testun Data:

E-bostiwch ni yn: **DataSubjectRightsRequests@dwrcymru.com**;

Ysgrifennwch atom yn: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Y Tîm Ceisiadau Hawliau Testun Data, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd CF3 0LT;; neu

Cliciwch **yma** i gael copi o'n ffurflen Gais Hawliau Testun Data.

Gall unrhyw unigolion y mae gennym wybodaeth amdanynt gyflwyno Cais Hawliau Testun Data. Gall trydydd parti wneud cais ar ran unigolyn (e.e. perthynas, ffrind, cyfreithiwr) ond bydd angen cydsyniad yr unigolyn o dan sylw arnom cyn y gallwn ddarparu unrhyw Ddata Personol amdanynt i drydydd parti.

O dan rai amgylchiadau, yn gyfreithiol mae gennych yr hawl i:

- Wneud cais i weld eich Data Personol (a elwir yn gyffredin yn "Cais i Gyrchu fel Testun Data"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r Data Personol sydd gennym amdanoch a dilysu ein bod ni'n ei brosesu yn unol â'r gyfraith;
- Gwneud cais i gywiro'r Data Personol sydd gennym amdanoch (a elwir hefyd yn "gywiriad"). Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch;
- Gwneud cais i ddileu eich Data Personol. Yn amodol ar rai amodau, mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu eich Data Personol (e.e. lle nad oes angen eich Data Personol mwyach ar y diben y cafodd ei gasglu, neu lle mae'r prosesu

perthnasol yn anghyfreithlon). Mae gennych chi'r hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu dynnu eich Data Personol yn ôl lle'r ydych wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu ei brosesu ac nad oes unrhyw fudd gor-redol dilys i barhau i'w brosesu (gweler isod);

— Gwrthwynebu prosesu eich Data Personol lle'r ydyn ni'n dibynnu ar fuddiant dilys (neu fuddiannau trydydd parti), lle'r ydyn ni'n prosesu Data Personol ar gyfer tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom, a lle bo rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n golygu eich bod am wrthwynebu prosesu'r wybodaeth ar y sail honno;

— Gwneud cais i gyfyngu ar brosesu eich Data Personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ymatal rhag prosesu eich Data Personol (e.e. os ydych am i ni sicrhau ei gywirdeb neu'r rheswm dros ei brosesu);

— Tynnu eich caniatâd i brosesu yn ôl. Lle'r ydym yn prosesu eich Data Personol yn seiliedig ar eich caniatâd, mae gennych chi'r hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd. Os penderfynwch chi dynnu'ch caniatâd yn ôl, byddwn ni'n rhoi'r gorau i brosesu eich Data Personol at y diben hwnnw, oni bai bod yna sail gyfreithiol arall y gallwn ddibynnu arno – ac os felly, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi. Ni fydd y ffaith eich bod yn tynnu'ch caniatâd yn ôl yn effeithio ar ein gwaith prosesu hyd at y pwynt yna o gwbl;

— Gwneud cais i drosglwyddo eich Data Personol i ddarparydd gwasanaeth arall (a elwir hefyd yn Hawl i Gludadwyedd) os ydyn ni'n dibynnu ar eich caniatâd i brosesu'r Data Personol yna;

— Ni ddylai fod yn destun penderfyniad sy'n seiliedig ar "brosesu awtomatig" yn unig. Nid ydym yn cyflawni unrhyw brosesu awtomatig ar hyn o bryd.

Ni fydd angen i chi dalu ffi i gyrchu eich Data Personol (nac i ymarfer unrhyw hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol arnoch os yw'n amlwg nad oes sail i'ch hawl i'w gyrchu neu os yw'r cais yn ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais o dan amgylchiadau o'r fath.

Mae hi'n bosibl y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu ni i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i gyrchu'r wybodaeth (neu i ymarfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch priodol arall yw hwn i sicrhau nad yw Data Personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw berson heb yr hawl i'w derbyn.

Mae gennych chi'r hawl hefyd i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef rheoleiddiwr Diogelu Data'r DU. Mae rhagor o fanylion ar wefan yr ICO sef **ico.org.uk**.

## 12. Diweddaru ein Hysbysiad Preifatrwydd

Byddwn ni'n diweddaru ein Hysbysiad Preifatrwydd wrth i'n prosesau a'n gweithdrefnau busnes, a/neu'r cyfreithiau Diogelu Data, newid. Bydd y fersiwn ddiweddaraf ar ein gwefan bob amser.

## 13. Hysbysiad Preifatrwydd Canolfannau Atyniadau Ymwelwyr

Am fanylion sut rydyn ni'n ymdrin â Data Personol ymwelwyr â'n Canolfannau Atyniadau Ymwelwyr, gweler Hysbysiad Preifatrwydd ein Canolfannau Atyniadau Ymwelwyr.